| SWYDD-DDISGRIFIAD | |
|---|---|
| **Teitl y Swydd** | Cymhorthydd Crèche a Gofal Plant Sir y Fflint |
| **Portffolio** | Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Yn atebol i** | Rheolwr Datblygu Gofal Plant |
| **Lleoliad** | Garden City a ledled Sir y Fflint |
| **Cyfeirnod Swydd/ Rhif Adnabod** | 70000001125 |

**Pwrpas y Swydd**

Cyfrannu at wasanaeth cefnogi rhianta yn y gymuned sy'n grymuso rhieni i ddatblygu lles eu plant drwy ddarparu ystod o wasanaethau fel gofal plant o ansawdd uchel.

Cynorthwyo'r Arweinydd a Goruchwyliwr Gwasanaeth Crèche a Gofal Plant Sir y Fflint i ddarparu a datblygu darpariaeth Gwasanaethau Gofal Plant Garden City a Crèche a Gofal Plant Sir y Fflint.

Bod yn gyfrifol a gofalu am holl blant fel grŵp neu ar sail 1 i 1 o fewn lleoliadau, ymestyn datblygiad plentyn drwy chwarae a dysgu cynhwysol.

Dangos arferion da ac arwain drwy esiampl.

Gweithio o fewn pob ystod oedran o 0 – 12 oed.

**Prif Gyfrifoldebau**

1. Gweithio gyda chydweithwyr, y Goruchwyliwr, yr Rheolwr Datblygu Gofal Plant yn y Gymuned a gweithwyr proffesiynol eraill i helpu i ddatblygu a chynllunio rhaglenni gofal a gweithgareddau priodol i blant 0 – 12 oed, gweithio o fewn Gwasanaethau Gofal Plant Garden City a Crèche Sir y Fflint a darpariaeth gofal plant arall ar draws Sir y Fflint, gan sicrhau y cedwir at arferion drwy gydol y diwrnod.
   Gall hyn gynnwys darparu ar sail estyn allan ac/neu ddigwyddiadau yn y gymuned

2. Darparu amgylchedd chwarae cynhwysol cyfoethog, ble gall plant ddatblygu'n gorfforol, meddyliol ac yn gymdeithasol gan deimlo'n gyfforddus ac yn rhydd i archwilio

3. Goruchwylio'r plant drwy'r amser, gan sicrhau y cydymffurfir â holl bolisïau a gweithdrefnau yn unol â deddfwriaeth, rheoliadau a lleiafswm safonau AGC (ECERS, ITERS a menter Cyn-ysgol Iach)

4. Cynorthwyo i baratoi'r deunydd a'r gweithgareddau yn yr ystafell i helpu profiadau chwarae a deilliannau dysgu'r plant.

5. Gweithio o fewn rhaglenni Llywodraeth Cymru e.e
   Dechrau'n Deg, Cynnig Gofal Plant i sicrhau bod anghenion unigol pob plentyn yn cael eu parchu a bod targedau ac amcanion a gydnabyddir yn cael eu gosod yn bersonol ac yn ddatblygiadol ar gyfer pob plentyn i sicrhau eu bod yn diwallu'r deilliannau gofynnol.

6. Gweithredu fel gweithiwr allweddol ar gyfer plant yn eich gofal, sicrhau cyfathrebu gyda rhieni, o dan arweiniad yr Arweinydd yn bwysig iawn sy'n cynnwys eu galluogi i ddatblygu dealltwriaeth o bwysigrwydd chwarae yn ystod pob cam o ddatblygiad y plentyn.

7. Sicrhau bod holl arferion yn cael eu dilyn a bod holl waith papur perthnasol wedi'i ddiweddaru gan gynnwys cofnodion plant, gwaith papur blynyddoedd cynnar ac ADY, dyddiaduron dyddiol a chofnodi deilliannau dysgu ac asesiadau i sicrhau bod yr ystafell yn rhedeg yn llyfn ac yn effeithiol.

8. Bod yn gyfrifol am weinyddu Cymorth Cyntaf os bydd angen

9. Sicrhau bod holl blant yn cael cyfle i gyfrannu a rhoi eu barn, a'u bod yn cael eu clywed a'u trin gyda pharch.

10. Darparu byrbrydau, prydau a diodydd iach i'r plant yn unol â chyngor deieteg a Menter Cyn Ysgol Iach

11. Cyfrannu at gynnal a chadw amgylchedd gwaith iach a diogel.

12. Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau ychwanegol a ystyrir yn briodol.

| **Goruchwylio/Rheoli Pobl** |
|---|
| Dim |
| **Gwiriadau Cyflogaeth / Gofynion Penodol h.y. Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd** |
| Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd |
| **Amodau Gweithio Arbennig** |
| Dim |

| Manylion am yr Unigolyn | | |
|---|---|---|
| ***Mae'r manylion am yr unigolyn yn nodi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad a ystyrir yn angenrheidiol i gyflawni'r swydd ac fe'u defnyddir wrth lunio rhestr fer ar y cam cyflwyno cais a'r cam cyfweld. Mae'n bwysig felly eich bod yn dangos yn eich cais sut rydych yn bodloni pob un o'r gofynion hanfodol.*** | | |
| **Cymwysterau Academaidd / Proffesiynol** | **Hanfodol / Dymunol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| Addysg at o leiaf NVQ/FCCh lefel 2 (neu gyfatebol) mewn disgyblaeth gofal plant gyda phrofiad o weithio o fewn lleoliad gofal plant yn unol â Fframwaith Cymwysterau AGC<br><br>Cymwysterau ychwanegol yn ymwneud â chwarae / ymrwymiad i weithio tuag at gymhwyster chwarae | Hanfodol. | Cais / Cyfweliad |
| **Gwybodaeth a Phrofiad** | | |
| Profiad o weithio gyda phlant ag anghenion ychwanegol gan gynnwys lleferydd, iaith a chyfathrebu. | Hanfodol. | Cais / Cyfweliad |
| Mae'n rhaid mwynhau gweithio gyda phlant, eu gweld fel unigolion a chael profiad o helpu plant i ddysgu a datblygu. | Hanfodol. | Cais / Cyfweliad |
| Profiad o weithio o fewn blynyddoedd cynnar a bod yn ymwybodol o Dechrau'n Deg a'r Cynnig Gofal Plant. | Hanfodol. | Cais / Cyfweliad |
| Tystiolaeth o nodi a datblygu datblygiad personol a phroffesiynol ymhellach yn hanfodol. | Hanfodol. | Cais / Cyfweliad |
| Cymorth Cyntaf Paediatreg, Hylendid Bwyd, Codi a Symud yn Gorfforol, Diogelu Plant | Dymunol | Cais/Cyfweliad |
| **Sgiliau** | | |
| Mae'n rhaid meddu ar sgiliau cyfathrebu ar lafar ac ysgrifenedig effeithiol ac wedi datblygu'n dda. | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Meddwl yn greadigol ac arloesi drwy geisio a rhoi cynnig ar ffyrdd newydd a gwell o wneud pethau, yn ogystal â chroesau mentrau gan eraill | Hanfodol | Cais / Cyfweliad |
| Yn gallu ysgogi eich hun a gallu gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Sgiliau hunan-reoli a threfnu ardderchog | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |

| | | |
|---|---|---|
| Sgiliau cofnodi cywir a phriodol | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| Sgiliau rhyngbersonol da | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cymwyseddau Ymddygiad Craidd Cyngor Sir y Fflint** | **Hanfodol** | **Sut fydd hyn yn cael ei asesu?** |
| **Cwsmer yn Gyntaf:**<br>Deall ein cwsmeriaid (mewnol ac allanol) a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i fodloni a rhagori ar eu disgwyliadau. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Gweithio'n Ddoethach:**<br>Bod yn glir o ran yr hyn y mae disgwyl i chi ei gyflawni yn eich swydd a meddu ar y sgiliau, y cymhelliant, y brwdfrydedd a'r ymrwymiad i weithio'n effeithiol. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cydweithio / Gweithio mewn Partneriaeth:**<br>Meithrin a chynnal perthnasoedd cadarnhaol er mwyn darparu gwell gwasanaethau ar gyfer ein cwsmeriaid a'n gweithwyr. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Cyfathrebu:**<br>Sicrhau ein bod yn deall ein gilydd, yn parchu ein gilydd ac yn mynegi a rhannu syniadau a gwybodaeth yn glir. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Newid:**<br>Addasu i newid a chyflwyno gwell ffyrdd o wneud pethau drwy greu syniadau a chwilio am y ffordd orau o ddarparu ein gwasanaethau. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |
| **Arwain a Rheoli:**<br>Eich arwain a'ch cymell eich hunan ac eraill i wella perfformiad yn barhaus. | Hanfodol | Ffurflen Gais/Cyfweliad |